Ysgol Penrhyncoch

Yn rhifyn mis Tachwedd o'r TINCER cyfeiriwyd at y casgliad arbennig o £70 a wnaed gennym tuag at y Sganiwr i Ysbyty Bronglais. Braf yw cyhoeddi i'r swm hwnnw godi i £108.63, a hyfryd oedd cael croesawu Mr Brian Thomas aelod o staff yr Ysbyty i'r ysgol un bore i dderbyn y siec. Soniodd wrth y plant am y sganiwr a'r pwysigrwydd o gael peiriant o'i fath yn Aberystwyth. Ein diolch diffuant i bawb am eu haelioni tuag at yr apêl.

Cafodd y merched gyfle i ddangos eu doniau ym myd y Bêl-rwyd un noson drwy gymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd yn y Gampfa ar gampws Coleg y Brifysgol. Cawsant hwyl reit dda ond yn fwy na dim cyfle i gwrdd a chymdeithasu â disgyblion o ysgolion eraill yn y cylch.